

Prifysgol De Cymru

Asesu AR GYFER Dysgu: Polisi a Gweithdrefnau Asesu

1. Ein dull o weithio ym Mhrifysgol De Cymru
2. **Beth?** Beth yw asesu? (ac ar gyfer beth yw asesu?)
3. **Pam?** Ein hegwyddorion asesu
4. **Sut?** Ein gofynion asesu a chanllawiau ar gyfer timau cyrsiau yn ystod y cylch asesu
5. Sut byddwn ni'n gwybod ei fod yn gweithio? Ein dangosyddion perfformiad.
6. Hyfforddi a Datblygu Staff
7. Diffiniadau
8. Atodiadau:

Atodiad 1: Deialog Asesu a Chymeradwyo Aseidiadau

Atodiad 2: Safoni a Chymedroli'r Gweithdrefn Marcio

Atodiad 3: Gofynion y Brifysgol ar gyfer Cyflwyno, Derbyn a Dychwelyd Aseidiadau

1. Ein dull o weithio ym Mhrifysgol De Cymru

Mae'r Polisi Asesu hwn yn gweithredu yng nghyd-destun ymrwymiad parhaus Prifysgol De Cymru tuag at wella ansawdd a gwella profiad y myfyriwr, ac mae'r ymrwymiad hwn i'w weld yn y Cynllun Strategol, y Cynllun Academaidd a'r Glasbrint Academaidd ar gyfer cyrsiau Israddedig.

Ym Mhrifysgol De Cymru, credwn mewn rhoi lle canolog i asesu wrth wraidd dysgu. Ochr yn ochr ag ansawdd y dysgu a'r addysgu, mae'n debyg mai asesu yw'r elfen bwysicaf y mae'n rhaid i ni ei gwneud yn iawn er mwyn helpu'r myfyrwyr i ddysgu ac i wella boddhad y myfyrwyr o ran eu profiad dysgu. Mae asesu ac adborth yn rhan allweddol o'r modd rydym yn cael ein mesur yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, felly mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ein hegri ar y maes hwn gan y bydd y myfyrwyr yn mesur ein dulliau gweithredu ni yn y cyd-destun hwn. Ond mae'n bwysicach na hynny am sawl reswm, mae'n elfen hanfodol i ddysgu a chymhelliant y myfyrwyr. Rydym yn cydnabod bod yr asesiadau a'r adborth gorau yn gwneud mwy na chyfrif a mesur cyflawniad y myfyrwyr, mae'n sail i'w datblygiad parhaus fel dysgwyr ac yn 'bwydo ymlaen' i ddysgu ac asesu yn y dyfodol. Mae asesu hefyd yn ffordd allweddol i'r Brifysgol ddangos bod ganddi safonau cymharol â sefydliadau eraill. O ganlyniad, mae'n elfen allweddol o ran disgwyliadau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch ynglŷn â'r hyn sy'n ofynnol i brifysgolion ei arddangos, fel yr amlinellir ym Mhennod B6 y Cod Ansawdd. Rhaid i ni ddangos bod ein hasesiadau yn cyfoethogi'r dysgu a'u bod yn ddilys ac yn ddibynadwy.

Fel rhan o'n hymrwymiad i ddysgwyr yn y Brifysgol byddwn yn datblygu dull asesu sy'n bodloni egwyddorion arferion da sefydledig.

O ganlyniad, bydd y polisi hwn yn gweithio ar dair lefel. Yn gyntaf, bydd yn sefydlu pam ein bod yn asesu a pham ei fod yn bwysig. Yn ail, bydd yn amlinellu rhai o'r egwyddorion asesu a fydd yn nodweddu dulliau Prifysgol De Cymru, a hynny'n

gyson â'r Cynllun a'r Glasbrint Academaidd. Yn drydydd, bydd yn anogaeth i weithredu drwy nodi gofynion y cyrsiau a'r camau gweithredu fydd eu hangen i ategu'r polisi a'i wreiddio. Yn rhan o'r anogaeth hon i weithredu, mae'r angen i gydnabod rôl barn broffesiynol sy'n seiliedig ar ddisgyblaeth: hynny yw, ei gwneud yn ofynnol i gyrsiau a phynciau ystyried eu dulliau asesu ar y cyd, ac nid ar lefel tiwtoriaid modiwl unigol. Bydd hyn yn sicrhau bod y dulliau asesu a'r cysyniad o safonau wedi'u gwreiddio a'u rhannu, a'u bod felly yn ddibynadwy, ac yn ennyn ymddiriedaeth. Dim ond os bydd y timau yn gosod asesu wrth wraidd eu sgysiau am ddysgu, gan gynnwys gyda'r myfyrwyr, y bydd y polisi hwn yn gweithio.

2. Beth? Beth yw asesu? (ac ar gyfer beth yw asesu?)

Dibenion asesu

“Mewn addysg uwch, mae ‘asesu’ yn disgrifio unrhyw brosesau sy’n gwerthuso gwybodaeth, dealltwriaeth, galluoedd neu sgiliau unigolyn.” (Cyfieithwyd o God Ansawdd y Deyrnas Gyfunol ar gyfer Addysg Uwch, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, Pennod B6: *Assessment of students and accreditation of prior learning*, 2011, t.1)

Rydym yn asesu myfyrwyr am amrywiaeth o resymau:

1. Creu cyfleoedd dysgu, a galluogi myfyrwyr i ddatblygu fel dysgwyr (asesu **ar gyfer** dysgu)
2. Cymell myfyrwyr i lwyddo
3. Darparu adborth, i'r myfyrwyr a'r staff, ar effeithiolrwydd y dysgu yn ystod y cwrs
4. Darparu marc/gradd sy'n ein galluogi ni i wahaniaethu rhwng perfformiad a sicrhau bod gan fyfyrwyr gyfleoedd priodol i ddangos eu bod wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriadwyd ar gyfer y dyfarniad neu'r credyd y maen nhw'n ei ddilyn (asesu'r dysgu **a wnaed**)
5. Gweithredu fel mecanwaith sy'n rhoi sicrwydd i'r safonau yn fewnol ac yn allanol fel bod dyfarniad gan Brifysgol De Cymru yn cael ei gweld fel un sydd o safon gyfatebol i raddau eraill yn y Deyrnas Gyfunol¹

¹ Bydd safonau academiaidd dyfarniadau'r Brifysgol yn gydnaws â'r rheini a fynegir yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru a'r Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch, a byddant yn gymaradwy â gweddill prifysgolion y Deyrnas Gyfunol

Credwn y dylai'r staff a'r myfyrwyr ganolbwyntio'n bennaf ar asesu ar gyfer dysgu, ar ddatblygu dulliau dysgu ac asesu sy'n cymell, ac ar ddarparu adborth sydd wedi'i integreiddio yn y dysgu yn y fath fodd fel bod y myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r safonau fel sail i'w dulliau dysgu nhw eu hunain. Dylai bod y staff a'r myfyrwyr yn rhannu'r un ddealltwriaeth o'r safonau a pha mor dda y cyflawnwyd y canlyniadau dysgu gan fod hyn yn meithrin ymddiriedaeth o ran pa mor ddibynadwy yw'r farn asesu. Mae hyn yn golygu llawer o waith, ac yn gosod gwaith asesu wrth galon y ddeialog yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt.

Mae'r polisi hwn yn rhoi blaenoriaeth benodol i (1) uchod, a'r angen a ddaw yn ei sgil i ystyried asesu fel dull o hyrwyddo a galluogi dysgu, yn hytrach na fel rhwystr y mae'n rhaid i'r myfyriwr ei oresgyn. O ganlyniad, elfen ganolog i'r polisi hwn yw 'Asesu ar gyfer Dysgu', sy'n allweddol i gyflawni (2 a 4) uchod.

3. Pam? Ein hegwyddorion asesu

Dyma'r egwyddorion sy'n sail i 'Asesu ar gyfer Dysgu':

1. Mae cynllunio asesiadau yn llywio ac yn hyrwyddo dysgu effeithiol
2. Mae asesu yn addas at y diben ac mae'r dulliau yn ddilys o ran mesur cyflawniad yn erbyn canlyniadau dysgu
3. Mae gofynion asesu yn glir ac yn amserol
4. Drwy ddeialog ragweithiol rhwng staff a myfyrwyr y caiff safonau asesu eu deall orau
5. Dylai myfyrwyr ymgyswrtio'n rhwydd â'r safonau asesu fel rhan o'u cwrs er mwyn bod y safonau'n rhan annatod o'u dysgu
6. Mae adborth ffurfiannol parhaus yn seiliedig ar ddeialog ac wedi'i integreiddio i'r dysgu a'r addysgu, yn datblygu dysgu ar lefel uchel ac yn gwella rhagolygon asesu. Dylai adborth cyfunol fod yn amserol ac yn cydfynd â'r canlyniadau dysgu, a dylai fwydo ymlaen
7. Rhaid i lwythi asesu fod yn gytbwys ac yn gyflawnadwy oddi mewn i amserlenni priodol, gyda thuedd tuag at asesiadau mwy heriol, ond llai ohonynt
8. Mae myfyrwyr yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol a dylid eu herio i wneud pethau anghyfarwydd, felly dylid sicrhau amrywiaeth mewn asesiadau ar draws y cwrs
9. Dylai barn asesu (h.y. marciau a graddau/dosbarthiadau) fod yn ddibynadwy ac yn ennyn ymddiriedaeth, a bydd hyn yn cynnwys datblygu dealltwriaeth/barn broffesiynol wedi'i rhannu ymhlith timau cyrsiau o ran safonau asesu ac ystyriaethau llawn y Byrddau Asesu.
10. Mae'r asesu yn ddiogel
11. Mae'r asesu wedi'i gynllunio er mwyn lleihau unrhyw gyfle am gamymddwyn academiaidd, gan gynnwys llenladrad
12. Mae rhywfaint o'r asesu yn seiliedig ar agweddau bywyd go iawn fel briffiadau ac efelychiadau, sy'n tynnu'r dysgwr allan o'r ystafell ddosbarth ac yn meithrin hyder, cymhelliant a sgiliau ar gyfer cyflogadwyedd.

Caiff yr egwyddorion hyn eu nodi'n glir mewn llenyddiaeth asesu. Er enghraifft, Gibbs a Simpson (2004), Brown (2004), Nicol (2008), Price, O'Donovan, Rust a Carroll (2008) a NUS (2010). Mae cyhoeddiadau diweddar fel "A marked improvement" gan yr Academi Addysg Uwch (2012) hefyd yn werth eu darllen. Maen nhw hefyd yn gydnaws ag arferion asesu da a nodir gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, pecyn ymarferol defnyddiol iawn sydd ar gael yma: <http://www.enhancementthemes.ac.uk/pages/docdetail/docs/resources/nus-assessment-and-feedback-benchmarking-tool>

4. Sut? Ein gofynion asesu a chanllawiau ar gyfer timau cyrsiau yn ystod y cylch asesu

Er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni'r egwyddorion hyn, mae gan y Brifysgol gyfres o ofynion sy'n gysylltiedig â'r cylch asesu – o'r broses gynllunio, gosod ac asesu, i ymgorffori adborth ffurfiannol a chynnal deialog gyda'r myfyrwyr ar safonau. Mae gofyn i Reolwyr Academaidd sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu gwireddu, ac i weithio ochr yn ochr â'r Arweinwyr Cwrs a Phenaethiaid Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr er mwyn gwneud hynny, a sicrhau bod tîm y cwrs yn cymryd rhan ar y cyd mewn deialog ynghylch arferion gorau ac arferion a rennir. Mae'n bwysig bod timau'r cyrsiau yn adolygu ar y cyd y dulliau asesu a rhoi adborth ar lefel y cwrs er mwyn ateb yr egwyddorion a nodir uchod. Bydd sgysiau o'r fath hefyd yn galluogi timau cyrsiau i ddehongli'r egwyddorion hyn yng nghyd-destun eu disgyblaethau.

Egwyddor 1: Mae cynllunio asesiadau yn llywio ac yn hyrwyddo dysgu effeithiol

Gofyniad 1: Dylai'r dysgwr fod wrth wraidd yr asesu a dylid mesur tystiolaeth cyflawniad. Dylid herio myfyrwyr i ddefnyddio'u gwybodaeth mewn sefyllfaoedd go iawn, yn hytrach nag ailadrodd ffeithiau. Dylai'r asesu hefyd brofi'r hyn y bwriedir ei brofi. Er enghraifft os bydd modiwl am brofi'r dysgu ar gyfer cyflogadwyedd, efallai bydd angen i'r asesu gynnwys cyd-destunau ymarferol neu broffesiynol. Barn broffesiynol yw'r asesiadau ac maen nhw wedi'u mynegi a'u rhannu orau oddi mewn i'r pynciau eu hunain. Ond mae hyn yn hanfodol gan fod angen i'r myfyrwyr brofi cwrs lle mae barn gyffredin ymhlith staff a myfyrwyr ynghylch yr hyn yw cyflawniad effeithiol a dysgu effeithiol. O ganlyniad mae gofyn i staff ymgymryd â Deialog Asesu a Chymeradwyo Asesiadau (Atodiad 1) i sicrhau ffocws parhaus ar asesu 'ar gyfer' dysgu yn ogystal ag asesu'r dysgu a wnaed. Disgwylir i bob cwrs gydymffurfio â Thariff Asesu'r Brifysgol (<http://celt.southwales.ac.uk/documents/download/272/>).

Egwyddor 2: Mae asesu yn addas at y diben ac mae'r dulliau yn ddilys o ran mesur cyflawniad yn erbyn canlyniadau dysgu

Gofyniad 2: Deialog Asesu a Chymeradwyo Asesiadau (gweler Atodiad 1): Mae gofyn i bob tîm cwrs gynnal Deialog Asesu a Chymeradwyo Asesiadau. Mae nod gwahanol i'r rhain. Y nod cyntaf yw cynnal gorolwg ac adolygu'r dull asesu ar draws y cwrs er mwyn ei alinio ag egwyddorion Asesu ar gyfer Dysgu. Bydd gofyn cynnal sgwrs ynghylch swm yr asesu, cydbwysedd mathau o asesiadau, a yw'n addas at y diben wrth fesur y dysgu yn erbyn y canlyniadau dysgu a fwriadwyd, dulliau rhoi adborth, pennu her briodol ar y lefel gywir a'r berthynas rhwng asesiadau gwahanol mewn modiwlau gwahanol. Dylai'r ddeialog fod yn sail i argymhellion ar gyfer mân addasiadau drwy Fwrdd Sicrwydd Ansawdd y Gyfadran ar gyfer y flwyddyn ganlynol yn ôl y drefn arferol, a ddylai gael ei gynnull gan Arweinydd y Cwrs.

Yr ail yw cadarnhau'r briffiadau asesu, dyddiadau cyflwyno a dychwelyd ar gyfer y flwyddyn ganlynol, cyn cyhoeddi'r asesiad i'r myfyrwyr a sicrhau eu bod wedi'u llunio yn unol â'r disgrifiydd modiwl a ddilyswyd, a Thariff Asesu'r Brifysgol, bod y briff yn glir, bod yr asesiad yn cynnwys disgrifiyddion gradd clir a bod amserlen yr asesu drwy gydol y flwyddyn wedi'i hystyried er mwyn osgoi cynnal gormod o asesiadau yn yr un cyfnod. Mae amseru'r asesiadau yn bwysig ac mae'n hanfodol nad ydynt wedi'u gosod ar ddiwedd y modiwl ond eu bod yn hytrach yn ddatblygol ac yn gynyddol, ac yn caniatáu i'r myfyrwyr ddysgu o gamgymeriadau cynnar. Mae'n bwysig cytuno ar y gyfundrefn asesu cyn cynnal y modiwlau. Felly, mewn darpariaeth israddedig llawn amser prif ffrwd mae angen gwneud hyn cyn dechrau'r cyfnod sefydlu. Gall dyddiadau newid ar gyfer darpariaethau â dyddiadau dechrau eraill. Caiff y digwyddiad hwn ei gadeirio gan y Rheolwr Academaidd a'r person hwn fydd yn cymeradwyo'r asesiadau ac amserlen yr asesiadau. Mae'n bwysig nodi **heblaw bod yna amgylchiadau eithriadol** (fel canslo taith maes oherwydd tywydd), **na ddylid newid** natur na dyddiad cyflwyno'r asesiad. Mewn amgylchiadau eithriadol, rhaid i'r Rheolwr Academaidd gymeradwyo dyddiad asesu diwygiedig.

Egwyddor 3: Mae gofynion yr asesu yn glir ac yn amserol

Gofyniad 3: Rhaid cyhoeddi pob briff asesu i'r myfyrwyr ar ôl Digwyddiad Cymeradwyo'r Asesiadau ar ddechrau'r modiwl a'u rhyddhau ar Amgylchedd Dysgu Ar-lein y Brifysgol. Rhaid i unrhyw amrywiadau i'r trefniadau hyn fod yn rhai eithriadol (er enghraifft, pan fydd angen ystyried achosion neu broblemau oedd wedi codi ar y pryd) a dim ond y Rheolwr Academaidd all gymeradwyo hyn. Achosion eithriadol yn unig fydd y rhai yma.

Gofyniad 4: Rhaid i Lawlyfrau'r Cyrsiau gael eu cwblhau yn unol â thempled y Brifysgol a rhaid iddynt gynnwys amserlen asesu ar gyfer pob modiwl, gyda dyddiadau cyflwyno a dychwelyd wedi'u cyhoeddi'n glir fel y gall y myfyrwyr gynllunio'u dysgu. Ar gyfer cyrsiau israddedig llawn amser, rhaid i'r Rheolwr Academaidd sicrhau bod pob llawlyfr wedi'i gyhoeddi yn unol â chanllawiau'r Brifysgol erbyn y 1af o fis Medi. Caiff yr Amserlenni Asesu eu cwblhau ar-lein a chaiff hyn ei gadarnhau gan y Rheolwr Academaidd. Ar gyfer cyrsiau israddedig llawn amser, dylai hyn hefyd fod erbyn y 1af o fis Medi.

Egwyddor 4: Drwy ddeialog ragweithiol rhwng staff a myfyrwyr y caiff safonau asesu eu deall orau

Egwyddor 5: Dylai myfyrwyr ymgyswrtio'n rhwydd â safonau asesu fel rhan o'u cwrs er mwyn bod y safonau'n rhan annatod o'u dysgu

Egwyddor 6: Mae adborth ffurfiannol parhaus yn seiliedig ar ddeialog ac wedi'i integreiddio i'r dysgu a'r addysgu, yn datblygu dysgu ar lefel uchel ac yn gwella rhagolygon asesu. Dylai adborth cyfunol fod yn amserol ac yn cyd-fynd â'r canlyniadau dysgu, a dylai fwydo ymlaen

Gofyniad 5: Dylai pob modiwl gynnwys elfennau o asesu ffurfiannol sy'n glir i'r myfyrwyr yng Nghlanllaw'r Modiwl. Dylai'r briffiadau asesu a gymeradwywyd gynnwys manylion am gyfleoedd asesu ffurfiannol ac ymgorffori adborth ffurfiannol yn ogystal ag adborth cyfunol.

Gofyniad 6: Drwy ddeialog gyda'r myfyrwyr, dylai pob modiwl sicrhau eglurder y safonau asesu a ddisgwylir ar y modiwl drwy, er enghraifft, adolygiad cymheiriaid o'r gwaith, neu adolygiad o waith blaenorol. Mae gofyn i diwtoriaid modiwlau gynnal deialog gyda'r myfyrwyr er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r safonau cyn cyflwyno asesiad cyfunol.

Gofyniad 7: Dylai pob adborth cyfunol gael ei ddychwelyd i'r myfyrwyr o fewn 20 diwrnod gwaith, yn unol â gofynion y Brifysgol.

Egwyddor 7: Rhaid i lwythi asesu fod yn gytbwys ac yn gyflawnadwy oddi mewn i amserlenni priodol, gyda thuedd tuag at asesiadau mwy heriol, ond llai ohonynt

Gweler Gofyniad 1: Deialog Asesu a'r Digwyddiad Cymeradwyo'r Asesiadau. Dylai asesiadau fod yn broses gynyddol (hynny yw, bod un asesiad yn sail i un arall gan adeiladu'r dysgu), ac felly ni ddylai'r asesiadau gyd ddigwydd ar ddiwedd modiwl. Mae cydbwysu'r asesiadau ar draws y flwyddyn yn caniatáu 'amser ar y dasg'. Mae cynnig gorolwg o'r holl asesiadau ar draws y cwrs i'r myfyrwyr yn bwysig.

Egwyddor 8: Mae myfyrwyr yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol a dylid eu herio i wneud pethau anghyfarwydd, felly dylid sicrhau amrywiaeth mewn asesiadau ar draws y cwrs

Gweler Gofyniad 1: Deialog Asesu a'r Digwyddiad Cymeradwyo'r Asesiadau, sy'n cynnwys trafodaeth ynghylch y mathau o asesiadau

Egwyddor 9 : Dylai barn asesu (h.y. marciau/graddau/dosbarthiadau) fod yn ddibynadwy ac yn ennyn ymddiriedaeth, a bydd hyn yn cynnwys datblygu dealltwriaeth/barn broffesiynol wedi'i rhannu ymhlith timau cyrsiau o ran safonau asesu ac ystyriaethau llawn y Byrddau Asesu.

Gofyniad 8: Rhaid i bob cwrs gydymffurfio â gofynion y Gweithdrefn Safoni a Chymedroli Marciau (Atodiad 2), gan gynnwys rôl byrddau asesu ac arholwyr allanol wrth gadarnhau canlyniadau a dyfarnu graddau a dosbathiadau gradd.

Egwyddor 10: Mae'r asesu yn ddiogel

Gofyniad 9: Rhaid i bob cwrs gydymffurfio â gofynion y Brifysgol ar gyfer Cyflwyno a Derbyni Asesiadau (Gweler Atodiad 3) a rhaid i Reolwyr Academaidd fonitro hyn.

Gofyniad 10: Rhaid i bob cwrs weithredu oddi mewn i reoliadau'r Brifysgol ar gyfer Amgylchiadau Esgusodol, yn bennaf y rheini sy'n ymwneud ag asesu, cyflwyno'n hwyr ac amgylchiadau esgusodol.

Egwyddor 11: Mae'r asesu wedi'i gynllunio er mwyn lleihau unrhyw gyfle am gamymddwyn academaidd gan gynnwys llenladrad

Gofyniad 11: Gweler Gofyniad 1 – Digwyddiad Cymeradwyo'r Asesiadau

Gofyniad 12: Dylid cyflwyno pob asesiad testun priodol drwy feddalwedd darganfod llenladrad (Turn-it-in).

Egwyddor 12: Mae rhywfaint o'r asesu yn seiliedig ar agweddau bywyd go iawn, fel briffiadau ac efelychiadau, sy'n tynnu'r dysgwr allan o'r ystafell ddosbarth ac yn meithrin hyder, cymhelliant a sgiliau ar gyfer cyflogadwyedd

Gofyniad 13: Dylid cynnal y cyrsiau yn unol â disgwyliadau'r Glasbrint Academaidd

gan gynnwys Dysgu drwy Drochi gydag adborth cyfunol o fewn y chwe wythnos gyntaf. Pan fo'n berthnasol, dylid cynnwys arbenigwyr allanol yn y drafodaeth ynghylch asesu ynghyd â disgwiliadau'r diwydiant fel rhan o ddeialog broffesiynol am safonau.

5. Sut byddwn ni'n gwybod ei fod yn gweithio? Ein dangosyddion perfformiad

Dylai asesiadau sydd wedi'u cynllunio yn ôl yr egwyddorion hyn, hwyluso'r canlynol:

1. Cymell myfyrwyr a chynnal eu sylw
2. Gwell cynnydd a llwyddiant i'r myfyrwyr
3. Gwell canlyniadau i'r myfyrwyr ar y modiwlau
4. Hyder cynyddol gan ddysgwyr yng nghyfundrefn asesu Prifysgol De Cymru

O ganlyniad, y mesurau allweddol a gaiff eu defnyddio i asesu ein perfformiad, fydd:

1. Data perfformiad modiwlau a chysiau – canlyniadau myfyrwyr (h.y. cyfraddau pasio), cynnydd a chyfraddau cadw
2. Gwerthusiadau modiwlau a chysiau sy'n darparu adborth ar ansawdd y gyfundrefn asesu

6. Hyfforddi a Datblygu Staff

Mae'n bwysig ein bod yn deall yr egwyddorion a'r gofynion yn y polisi a'r gweithdrefnau a'n bod yn eu hymgorffori yn ein harferion gwaith. Felly bydd CELT yn darparu hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar roi arweiniad i dimau cyrsiau ar:

- cynllunio ac arferion asesu da, fel sail i'w deialog asesu
- egwyddorion asesu ar gyfer dysgu a chyngor ymarferol ar eu gweithredu
- gweithredu asesiadau ffurfiannol a chyfunol
- alinio asesiadau gyda chanlyniadau dysgu a ffyrdd effeithiol o asesu yn y cyd-destun hwn
- ffyrdd effeithiol o ddatblygu deialog a deall safonau gyda'r myfyrwyr
- cyflwyniadau ar-lein, marcio ac adborth
- cynllunio asesiadau er mwyn lleihau'r cyfleoedd ar gyfer camymddwyn academaidd

7. Diffiniadau

1. **Asesu ar gyfer Dysgu:** asesiadau sydd wedi'u cynllunio i gyfoethogi dysgu'r myfyrwr ac nid i gadarnhau hyn drwy farc yn unig. Bydd myfyrwr yn defnyddio tystiolaeth o'u dysgu a'u cyflawniadau eu hunain i fonitro eu cynnydd a meithrin dealltwriaeth o'r heriau sydd i ddod. Mae'n gofyn am gyd-ddealltwriaeth o'r safonau ar ran y dysgwyr a'r athro fel tîm, fel bod y safonau hynny yn cael eu gwreiddio yn y dysgu wrth i'r myfyrwr ddatblygu o un her i'r her nesaf, sy'n fwy cymhleth. Mae cynllun yr asesiadau yn cymhell y myfyrwr ac yn cynnal eu sylw yn y broses ddysgu.
2. **Aliniad adeiladol:** creu gweithgareddau dysgu ac asesiadau sy'n cyd-fynd yn glir â'r canlyniadau dysgu a fwriadwyd ar gyfer y modiwl, ac sy'n cyd-fynd â'r meini prawf marcio
3. **Adborth:** Mae adborth yn elfen hanfodol o'r broses ddysgu. Mae'n fwy na chyfiawnhad ar gyfer marc. Mae'n caniatáu i ddysgwyr fyfyrion ynghylch eu dysgu ac ar eu lefel bresennol o gyrhaeddiad, a lefel y cyrhaeddiad yn y dyfodol; mae'n taflu goleuni ar y meysydd hynny y gallai'r myfyrwr eu gwella o ran eu gwybodaeth neu eu sgiliau; mae'n cynnig cyfle i'r myfyrwr hunan-asesu eu galluedd ac mae'n edrych ymlaen at heriau pellach o ran aseiniadau. Egwyddorion adborth da yw: mae'n ymgorffori dulliau o annog myfyrwr i ymdrin â'r adborth mewn modd gweithredol, gan gynnwys trafodaeth gyda'r tiwtoriaid; mae wedi'i ganolbwyntio ar berfformiad yn y dyfodol yn ogystal ag ar ansawdd a lefel y perfformiad sydd wedi'i chyrraedd yn barod; mae'n glir i fyfyrwr pa fath o adborth y byddan nhw'n ei dderbyn a phryd; mae'r myfyrwr yn ymwybodol o'r dulliau adborth anffurfiol sydd ar gael yn ogystal â'r adborth asesu ffurfiol; bod adborth yn hygyrch, yn glir ac yn gyson o ran ansawdd; bod adborth yn cyd-fynd â'r meini prawf marcio a disgrifiadau'r gradd a amlinellir yn y briff asesu; bod yr adborth yn cymhell ac yn annog myfyrwr i wella'u dysgu.
4. **Bwydo ymlaen:** Dylid hefyd gynnig cyfleoedd i fwydo adborth ymlaen. Gellir defnyddio hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft, darparu sylwadau ar waith drafft sy'n bwydo i'r asesiad terfynol, neu drwy gynnig awgrymiadau ar

gyfer gwella technegau y gellir eu trosglwyddo i asesiadau yn y dyfodol. Dylid cynnig cyfleoedd, yn arbennig (ond nid yn unig) ar ddechrau astudiaethau myfyrwyr ynghylch y defnydd o adborth a strategaethau bwydo ymlaen gan y bydd hyn yn annog hunan-reolaeth a dysgu annibynnol y myfyrwyr.

5. **Addasrwydd i'r diben:** Asesiadau sydd wedi'u cynllunio i ddangos cyflawniad yn glir yn erbyn y canlyniadau dysgu a fwriadwyd. Mae canlyniadau dysgu, gweithgareddau ac asesiadau yn cyd-fynd â'i gilydd ac yn gweithio ynghyd. Mae cynlluniau asesiadau yn datblygu annibyniaeth y dysgwr, ei allu i hunan-fyfyrio, a'i gyflogadwyedd drwy hunan-adolygiad ac adolygiadau cymheiriaid.
6. **Asesiadau Ffurfiannol a Chyfunol:** Mae dulliau cyfunol yn gwyro tuag at asesu'r dysgu **A WNAED**, drwy werthuso ac ardstyio perfformiad neu gyrhaeddiad y myfyrwyr drwy farc sy'n cyfrif tuag at ddyfarniad. Mae dulliau ffurfiannol yn canolbwyntio ar asesu **AR GYFER** dysgu, lle bydd tasg asesu yn brofiad dysgu ynddo'i hun. Mae felly yn ymarfer diogel i'r myfyrwyr heb sgôr asesu derfynol (hynny yw, un sy'n cyfrif tuag at farc gyda bwrdd dyfarnu), lle gallan nhw ddysgu, derbyn adborth, a myfyrio cyn cyflwyno'r gwaith ar gyfer asesiad terfynol (cyfunol). Nodwedd ganolog asesiad ffurfiannol yw darparu adborth effeithiol ac amserol sy'n hwyluso dysgu'r myfyrwyr. Yn gryno, asesu ffurfiannol yw monitro'r dysgu mewn ffordd diagnostig a pharhaus. Asesu cyfunol yw gwerthuso'r dysgu sydd wedi digwydd drwy farcio. Felly dylai cyrsiau ddatblygu dull o integreiddio'r asesu i gydbwysu'r cyfunol a'r ffurfiannol er mwyn sicrhau y caiff dau brif ddiben asesu eu gwireddu a chanlyniadau'r dysgu eu cyflawni. Mae cysylltu'r tasgau ffurfiannol â'r asesiad cyfunol yn ffordd o ymgorffori asesu ffurfiannol yn y cwrs. Dylai arweinwyr modiwlau sicrhau bod cydbwysedd yr asesu ffurfiannol a chyfunol yn briodol er mwyn cefnogi'r broses o gynnal sylw'r dysgwr yn y modiwl. Rhaid ystyried y diet llawn o asesiadau ffurfiannol a chyfunol er mwyn osgoi gor-asesu ac yng nghyd-destun asesu cyfunol, mae'r polisi hwn yn pwysleisio bod aseiniadau heriol, ond llai ohonynt, yn datblygu dysgu dyfnach ac yn creu gofod ar gyfer asesu ffurfiannol datblygol a diagnostig. Dylid hefyd gofalu nad oes anfantais i'r myfyrwyr hynny sydd â chynlluniau cymorth unigol o ran y ddau fath o asesiadau. Yn ogystal â dulliau cynllunio asesiadau sy'n

canolbwyntio ar y myfyriwr, rhaid hefyd ystyried yr adnoddau staffio wrth gynllunio strategaeth asesu modiwl.

7. **Disgrifiadau'r Graddau:** Datganiadau sy'n diffinio lefel o gyflawniad mewn band penodol o farciau/graddau (diffiniad yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd)
8. **Gor-asesu:** Fel rhan o gyfundrefn asesu glir a dilys, sy'n addas at y diben, mae'n bwysig sicrhau na chaiff myfyrwyr eu gor-asesu, gan y gall hyn olygu bod yr asesu yn rhwystro (yn hytrach na'n cyfoethogi) y dysgu. Dylid sicrhau bod asesiadau mewn modiwlau penodol ac ar draws cyrsiau yn cael eu dosbarthu'n gyfartal i osgoi cynnal gormod o asesiadau yr un pryd. Dylai asesiadau ar draws holl gyrsiau'r Brifysgol fod yn gyson o ran sicrhau na ddylai cyfanswm yr asesu sy'n digwydd ar bob cwrs amrywio y tu hwnt i ffiniau arferion da. Mae tariff Asesu Prifysgol De Cymru (<http://celt.southwales.ac.uk/documents/download/272/>) yn amlinellu'r dull cyson hwn o weithredu a rhaid i bob tîm sy'n cynllunio cyrsiau ddefnyddio'r dull hwn wrth gadarnhau diet a llwyth asesu er mwyn osgoi gor-asesu a sicrhau cysondeb yn y llwythi gwaith asesu.
9. **Amser ar y dasg:** Yr amser o ansawdd y bydd dysgwyr yn ei dreulio ar dasgau sy'n eu hymestyn a'u herio. Mae hyn yn cynnwys cysoni lefel her yr asesiad â lefel y garfan o fyfyrwyr er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn heriol ond yn gyraeddadwy. Mae hyn yn creu cymhelliant a dylid ei ategu gyda rhyngweithio yn yr ystafell ddosbarth gan y tiwtor, drwy fodelu, arwain a hyrwyddo, holi dysgwyr a chynnig adborth ffurfiannol. Mae dull rhyngweithiol tuag at addysgu yn allweddol er mwyn sicrhau amser ar y dasg.
10. **Dilysrwydd:** Dylai asesiad fesur yr hyn y bwriadwyd iddo fesur. Mae'n bwysig sicrhau bod tryloywder yn y modd y mae'r asesiad yn cyd-fynd â chanlyniadau dysgu clir a realistig. Dylid nodi'n glir y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i gyflawni'r canlyniadau hyn a'r tasgau asesu sy'n gysylltiedig â nhw. Dylai'r dulliau asesu oddi mewn i fodiwlau unigol a thrwy'r cyrsiau, felly, gyd-fynd â'r canlyniadau dysgu fel sydd wedi'u gosod yn nisgrifiadau'r modiwlau a manylebau'r rhaglenni, fel bod y dysgwyr yn llwyr ymwybodol o ofynion yr holl elfennau asesu.

Atodiad 1: Deialog Asesu a Chymeradwyo'r Asesiadau

1. Deialog Asesu

Deialog broffesiynol yw hon ymhlith cymheiriaid mewn cwrs i adolygu a monitro effeithiolrwydd yr asesu ar lefel cwrs/rhaglen, i rannu arferion a dulliau gweithredu, ac i brofi pa mor dda y mae'r gyfundrefn asesu yn cyd-fynd â'r egwyddorion asesu a amlinellir yn y Polisi Asesu. Arweinydd y Cwrs ddylai amseru'r ddeilaog hon a gallai fod yn rhan o drafodaeth datblygu cwrs flynyddol; y bwriad yw ei bod yn llywio mân addasiadau i raglenni mewn ffordd ddatblygol a pharhaus, neu'n sail i ystyriaethau yn ystod adolygiad cyfnodol.

Dylai tîm y cwrs gymryd golwg gyfannol ac adolygu'r dull asesu ar draws y rhaglen er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag egwyddorion Asesu ar gyfer Dysgu. Bydd angen trafodaeth ynghylch faint o asesiadau sydd i'w cynnal a'r tariff asesu, cydbwysedd y mathau o asesiadau, a yw'n addas at y diben o ran mesur y dysgu yn erbyn y canlyniadau dysgu a fwriadwyd, dulliau effeithiol o roi adborth (gan gynnwys adborth ffurfiannol), gosod her briodol ar y lefel gywir a'r berthynas rhwng asesiadau gwahanol mewn modiwlau gwahanol. Dylai'r ddeialog hon fod yn sail i argymhellion ar gyfer mân addasiadau drwy Bwyllgor Sicrwydd Ansawdd y Gyfadran ar gyfer y flwyddyn ganlynol yn y ffordd arferol ac Arweinydd y Cwrs ddylai gynnull hyn. Dylai Pennaeth Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr gynorthwyo i wreiddio'r broses hon a rhannu arferion asesu da ar draws y Gyfadran.

Amseru: dylid cynnal y digwyddiad ym mis **Mehffin** i sicrhau bod sail i'r mân addasiadau i'r asesu ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Dylid prosesu'r rhain drwy Bwyllgor Sicrwydd Ansawdd y Gyfadran yn y ffordd arferol.

2. Cymeradwyo'r Asesiadau

Disgwylir i bob asesiad ar fodiwl gael ei gymeradwyo. Cyfrifoldeb tiwtor y modiwl yw cynhyrchu briffiadau asesu. Caiff cymeradwyaeth ei rhoi drwy ddigwyddiad cymeradwyo ffurfiol sy'n cynnwys:

1. Y Rheolwr Academaidd (Cadeirydd)
2. Arweinydd y Cwrs

Mae gan Bennaeth Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr rôl i'w chwarae wrth gynghori timau cwrs a thiwtoriaid modiwl ar gynllunio asesiadau da cyn y gymeradwyaeth. Mae Rheolwyr Academaidd ac Arweinwyr Cyrsiau yn gyfrifol ar y cyd am gynnal digwyddiad effeithiol. Y digwyddiad cymeradwyo sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r gweithgareddau asesu ar gyfer holl ddarpariaeth y cyrsiau a gynhelir gan y Brifysgol, boed hynny ar y campws, oddi ar y campws neu drwy drefniant breiniol â phartner cydweithredol. Rhaid cymeradwyo pob papur arholi a briff asesu cyn cychwyn y modiwl.

Gwybodaeth bellach ynghylch y gweithrediad a'r aelodaeth.

Mae'r digwyddiad yn cadarnhau'r papurau arholi a'r briffiadau asesu, ynghyd â'r gofynion ailasesu, i sicrhau:

- eu bod wedi'u cynllunio i brofi cyflawniad rhai o ganlyniadau dysgu'r modiwl a'r rhaglen, neu bob un ohonynt;
- bod y dasg a osodir, a'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n cael eu hasesu a'r dulliau asesu a ddefnyddir yn cyd-fynd yn glir â chanlyniadau dysgu'r modiwl
- bod y meini prawf marcio/graddio yn glir ac yn dryloyw, wedi'u gosod ar y lefel gywir ac yn cyd-fynd â'r canlyniadau dysgu, fel bod y myfyrwyr yn ymwybodol o ba fesurau cânt eu hasesu yn eu herbyn;
- bod disgrifiadau'r graddau ar gael sy'n rhoi eglurhad i'r dysgwyr o'r nodweddion craidd sy'n cyrraedd lefel benodol mewn gwahanol derfynau gradd (nodweddion dosbarth cyntaf, ail ddosbarth uwch ac yn y blaen);
- nad ydynt yn gorgyffwrdd yn ormodol ag elfennau asesu eraill yn yr un modiwl neu gwrs a'u bod yn hunan-gynhwysol (e.e. nid ydynt yn croesgyfeirio drwy nodi mewn cwestiwn arholiad bod yn rhaid i ymgeiswyr ddewis pwnc sy'n wahanol i un yr aethon nhw i'r afael ag ef mewn gwaith cwrs);
- bod math, maint a phwysoliad yr asesiad yn gyson â'r disgrifiad o'r modiwl a ddilyswyd ac a gyhoeddwyd ar yr Amgylchedd Dysgu Ar-lein;
- bod briffiadau asesu gwaith cwrs wedi'u cwblhau, gan gynnwys pob elfen yn nhempeld clawr yr asesiad;

- bod y dyddiadau ar gyfer cyflwyno a dychwelyd asesiadau wedi'u pennu a'u cyhoeddi yn Llawlyfr y Cwrs a'r Dyddiadur Asesu
- bod y dyddiadau asesu a gyhoeddir ar bob lefel wedi'u dosbarthu drwy gydol y flwyddyn gyda rhai asesiadau cynnar wedi'u hamserlennu i ~~osgoi cynnal gormod o asesiadau ar unrhyw un adeg~~
- eu bod yn hygyrch i gorff amrywiol o fyfyrwyr, gan osgoi gogwydd Prydeinig/Ewropeaidd o ran y cynnwys neu'r modd y cânt eu cyflwyno;
- bod papurau arholi yn dilyn y fformat gofynnol a'u bod wedi'u cyflwyno gan ddefnyddio templed papur arholi;
- bod cyfarwyddiadau arholi mor glir a syml â phosibl, gyda chyfeiriad penodol at unrhyw gyfarwyddiadau neu ddeunyddiau arbennig;
- bod y testun ac unrhyw ddeunyddiau eraill wedi'u prawf-ddarllen;
- bod papurau arholi a briffiadau asesu gwaith cwrs sydd wedi'u gosod ar gyfer ailasesiad, yn cyflwyno her debyg i'r hyn a gyflwynwyd ar gyfer yr asesiad cyntaf. Fel arfer, mae ailasesiadau yn dilyn yr un fformat ond gyda chynnwys gwahanol (e.e. cwestiwn traethawd); gweler y canllawiau.

Dylai'r panel gymeradwyo'r asesiadau cyn i'r modiwl gychwyn. **Os** bydd y panel yn gofyn am newidiadau i unrhyw asesiad, cânt eu cyfeirio at diwtor y modiwl am drafodaeth gydag Arweinydd y Cwrs. Y Rheolwr Academaidd fydd yn cadarnhau'r briff diwygiedig.

Dylai Arweinydd y Cwrs gadw copi electronig o bapurau arholi a briffiadau asesu a gymeradwywyd. Cyfrifoldeb tiwtor y modiwl yw sicrhau bod fersiwn cymeradwy'r briffiadau asesu yn cael eu cyhoeddi i'r myfyrwyr.

Amseru: dylid cwblhau'r digwyddiad erbyn dechrau mis Medi, cyn i'r modiwlau ddechrau. Fodd bynnag, gall timau cyrsiau drefnu cymeradwyaeth asesu gyda'r Rheolwr Academaidd ynghynt os yw hynny'n ymarferol.

Atodiad 2: Marcio a Chymedroli

1. Rhagair

- 1.1 Mae Rhan B, Pennod B6 Cod Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd: Aseu myfyrwr a chydabod dysgu blaenorol yn nodi:

Disgwyliad

Mae darparwr addysg uwch yn gweithredu prosesau aseu cyfartal, dilys a dibynadwy, gan gynnwys ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol, sy'n galluogi pob myfyriwr i arddangos i ba raddau y mae wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriadwyd ar gyfer y credyd neu'r cymhwyster y ceisir amdano

Dangosydd 13

Mae'r prosesau ar gyfer marcio asesiadau a chymedroli marciau wedi'u nodi'n glir a'u gweithredu'n gyson gan y sawl sy'n gysylltiedig â'r broses aseu.

- 1.2 Felly, mae angen polisi ar y Brifysgol i gyflawni'r disgwyliad hwn. Mae'r polisi isod yn seiliedig ar ddiwygiadau i adran berthnasol y Rheoliadau cyfredol ar gyfer Cyrsiau a Addysgir (A.2.7.4 ac A.2.7.5).

2. Polisi

- 2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i:

- bob cwrs israddedig (BA, BSc, LLB, BEng ac yn y blaen);
- pob cwrs ôl-raddedig a addysgir;
- pob gradd sylfaen;
- pob cwrs HND/HNC

- 2.2 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i asesiadau sy'n cyfrannu at farc ar bob lefel, gan gynnwys lefel tri a lefel pedwar yn ogystal â marciau a gaiff eu cyflwyno i fyrddau aseu sy'n cyfrannu at ddsbarthiad gradd terfynol y myfyriwr.

- 2.3 Disgwylir i dimau arholi llynu at y protocolau marcio a chymedroli a ddiffinnir. Mae'r rhain yn cynrychioli'r isafswm lefel o arfer sy'n ofynnol i gynnal safonau academaidd dyfarniadau'r Brifysgol.

- 2.4 Mae marcio yn elfen allweddol o'r broses aseu, sy'n ategu'r broses o gynnal safonau academaidd. Bydd y sawl sy'n marcio yn arfer eu barn academaidd yn unol â phwyntiau cyfeirio'r Brifysgol a phwyntiau cyfeirio allanol.

- 2.4 Tiwtor y modiwl a thîm y modiwl sy'n gyfrifol am farcio a darparu adborth o fewn 20 diwrnod gwaith (mae'r rheol 20 diwrnod yn eithrio traethodau hir) fel y pennir gan y rheolwr llinell. Y rheolwr llinell sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan bob modiwl proses wedi'i chytuno ar gyfer cymedroli a marcio yn unol â'r polisi hwn.
- 2.5 Mae marcio yn digwydd yng nghyd-destun disgrifiadau'r graddau a'r meini prawf asesu, ac mae'r cyd-destun yn glir i'r sawl gaiff ei asesu drwy friffiadau asesu'r modiwl ar gyfer pob pwynt yn yr asesiad.

3. Diffiniadau

3.1 Mae'r Brifysgol yn defnyddio'r diffiniadau canlynol wrth ddisgrifio'r isafswm lefel o ymarfer:

- Marcio unigol: asesiad a gaiff ei farcio gan un person yn unig.
- Marcio dwbl dall: caiff asesiad ei farcio dan ddau berson, ac nid yw graddau/sylwadau'r marciwr cyntaf ar gael i'r ail farciwr.
- Ail farcio (marcio dwbl gaiff ei weld): caiff asesiad ei farcio gan ddau berson, ond mae graddau/sylwadau'r marciwr cyntaf ar gael i'r ail farciwr.
- Samplu: mae'r cymedrolwr (allanol neu fewnol) yn edrych ar enghreifftiau ystod o raddau. Dylai hyn ond ddigwydd pan na fydd hi'n ymarferol i graffu ar waith carfan gyfan.
- Cymedroli mewnol: bydd cydweithiwr yn yr un gyfadrn/sefydliad yn craffu ar raddau modiwl. Gall hyn fod drwy gyfrwng proses samplu, drwy graffu ar garfan gyfan, neu drwy farcio dwbl neu ail farcio.
- Cymedroli allanol: bydd arholwr allanol yn craffu ar farciau arholwr mewnol neu dîm o arholwyr mewnol, fel arfer drwy samplu.

4. Gweithdrefnau Marcio

4.1 Strategaethau Asesu

4.1.1 Dylai pob cwrs gynhyrchu strategaeth asesu a ffordd o ddilysu sy'n ymgorffori'r Egwyddorion Asesu a amlinellir yn y Polisi Asesu. Caiff y strategaeth ei hystyried drwy fonitro blynyddol ac yn ystod y digwyddiad asesu blynyddol.

4.2 Meintiau samplo ar gyfer cymedroli

4.2.1 Pan fo'n bosibl, dylid cymedroli'r holl waith sy'n rhan o'r dosbarthiad gradd cyffredinol.

4.2.2 Os bydd modiwl yn arbennig o fawr, bydd y cymedrolwr yn cymedroli:

- Pob asesiad a gyfeiriwyd h.y. y rheini sy'n cyrraedd marc sy'n is na 40%
- Pob asesiad a roddwyd 40% iddo
- 10% o'r asesiadau sy'n weddill gyda sampl o bob band

4.2.3 Os bydd cyfanswm nifer yr asesiadau yn llai na 10, caiff pob un ei gymedroli.

4.3 Marcio

4.3.1 Anogir marcwyr i ddefnyddio Grademark ar gyfer anodi'r sgriptiau. Ni ddylai sylwadau marcwyr eraill ddylanwadu arnynt a dylid dod i farn annibynnol.

4.4 Cysoni Marciau

4.4.1 Pan gaiff darn o waith ei farcio gan ddau aelod o staff, dylai'r marcwyr wneud pob ymdrech i gytuno ar farc, yn hytrach na rhoi cyfartaledd y ddau farc. Os na fydd dau farciwr mewnol yn gallu cytuno, dylai'r Ysgol wneud pob ymdrech i ddatrys y mater yn fewnol, er enghraifft, drwy gynnwys trydydd aelod o staff i ganoli, neu os bydd angen, i weithredu fel trydydd marciwr. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid anfon gwaith at arholwr allanol, a gofyn iddo ganoli. Rhaid i'r arholwr allanol gael gweld sylwadau ysgrifenedig y marcwyr mewnol.

4.5 Traethodau hir neu waith cyfatebol

4.5.1 Dylai pob traethawd hir neu brosiect blwyddyn olaf cyfatebol gael ei farcio'n ddwbl. Os bydd anghytundeb rhwng dau farciwr mewnol, dylid datrys hyn drwy drafodaeth gydag arweinydd y cwrs, a ddylai hefyd gynnwys y traethawd hir neu'r gwaith cyfatebol yn y sampl a anfonir at yr arholwr allanol. Mewn amgylchiadau eithriadol, mewn achosion o anghytundeb ar faterion o egwyddor, neu pan na fydd modd cytuno yn fewnol, dylid cyfeirio'r mater at yr arholwr allanol. Rhaid i'r arholwr allanol gael gweld sylwadau ysgrifenedig y marcwyr mewnol.

4.6 Gwaith cwrs yn seiliedig ar berfformiad

4.6.1 Pan fydd gan asesiad o waith yn seiliedig ar berfformiad allbwn y mae modd ei ddangos i arholwr allanol, byddai'n agored i'r trefniadau arferol ar gyfer marcio a chymedroli cyhyd â bod yr allbwn yn gysylltiedig â'r meini prawf asesu.

4.6.2 Pan na fydd modd rhannu'r allbwn â'r arholwr allanol, dylid hefyd sicrhau bod samplau o elfennau'r asesu, fel adroddiadau cyflwyniadau, asesiadau ymarferol a chynrychiadau theatrig, ar gael lle bo'n bosibl, er mwyn i'r arholwr allanol graffu arnynt. Gellid cyflawni hyn, er enghraifft, drwy ddefnyddio recordiadau fideo, cyfleusterau fideo-gynadledda, neu drwy wahodd yr arholwr allanol i ymweld â sampl o'r asesiadau. Os caiff arholwr allanol ei wahodd i berfformiad, dylai hyn fel arfer, fod yn seiliedig ar gwmpasu 100% o'r garfan gyfan. Os nad yw hyn yn bosibl, disgwylir y bydd rhyw ddull o gofnodi perfformiad yn cael ei ddefnyddio.

4.7 Gwaith grŵp

4.7.1 Pan fydd modd dangos allbwn i arholwr allanol, dylid gweithredu'r trefniadau arferol ar gyfer marcio a chymedroli.

4.7.2 Pan na fydd modd rhannu'r allbwn â'r arholwr allanol, dylid dilyn y gweithdrefnau ar gyfer gwaith cwrs yn seiliedig ar berfformiad.

4.8 Lleoliadau/Dysgu yn y Gweithle

4.8.1 Dylid dilyn trefniadau marcio a chymedroli arferol ar gyfer Lleoliadau a Dysgu yn y Gweithle.

4.9 Arholiadau Clinigol Strwythuredig Gwrthrychol (OSCE)

4.9.1 Pan gaiff Arholiad Clinigol Strwythuredig Gwrthrychol ei farcio'n ddwbl (h.y. dau asesydd yn bresennol wrth y man gwaith) nid oes angen cymedroli pellach. Dyma yw'r arfer a argymhellir.

4.9.2 Pan mai dim ond un marciwr sy'n bresennol, dylid dilyn proses gymedroli addas. Er enghraifft, nodi unigolyn i oruchwylio ac arsylwi'r asesu ar draws sampl o

fannau gwaith ac aseswyr i wneud fideo neu recordiad sain o sampl o'r manau gwaith i'w hadolygu'n ddiweddarach.

4.10 Colegau Partner

4.10.1 Mae trefniadau marcio dwbl a chymedroli yn ymestyn i golegau partner. Pan gynhelir modiwlau mewn nifer o golegau partner, dylai Arweinydd y Modiwl gydlynu'r broses marcio dwbl a'r broses cymedroli. Pan fydd modiwl OND yn cael ei gynnal mewn coleg partner, y coleg sy'n gyfrifol am y marcio dwbl. Yna, dylid sicrhau bod sampl marcio dwbl ar gael i'r Swyddog Cyswllt Prifysgol perthnasol at ddibenion cymedroli.

4.11 Ceisiadau gan fyfyrwyr i'w gwaith gael ei ail-farcio

4.11.1 Nid oes hawl gan fyfyrwyr i wneud cais am ail-farcio, oni bai bod amheuaeth ynghylch camgymeriad gweithdrefnol neu weinyddol. Byddai'r ceisiadau hyn yn mynd drwy'r broses Apeliadau.

4.12 Marciau modiwl

4.12.1 Arweinydd y modiwl sy'n gyfrifol am y marciau a gofnodir ym mhob elfen o'r asesiad ac am sicrhau bod y bwrdd asesu pwnc yn derbyn y graddau cywir ar gyfer y modiwl. Pan gaiff modiwl ei rannu ymhlith staff, arweinydd y modiwl sy'n gyfrifol am goladu'r marciau ar gyfer pob elfen o'r asesiadau. Pan gaiff yr addysgu a/neu farcio ei rannu gyda staff eraill, dylid trafod ymlaen llaw ym mha ffordd y caiff y meini prawf asesu eu defnyddio o ran canlyniadau dysgu'r modiwl.

4.12.2 Pan gaiff modiwl ei gynnig mewn sefydliad partner, fel rhan o gwrs breiniol neu gwrs a ddatblygwyd ar y cyd, dylid ei drin yn yr un modd â chwrs mewnol.

4.13 Asesiadau dienw ac asesiadau nad ydynt yn rhai dienw

4.13.1 Rhaid marcio pob arholiad yn ddiennw, gyda'r myfyrwyr wedi'u hadnabod drwy rif cofrestru.

4.13.2 Rhaid marcio asesiadau gwaith cwrs yn ddiennw pan fydd modd gwneud hynny (er enghraifft, traethodau) pan fyddant yn cyfrannu at ddyfarniad terfynol. Unwaith y bydd adborth cychwynnol wedi'i roi, cyfrifoldeb y myfyriwr yw mynd at y darlithydd am gyngor neu gefnogaeth bellach. Nid oes modd asesu rhai mathau o waith cwrs yn ddiennw oherwydd bod y natur neu'r cynnwys yn datgelu pwy yw'r myfyriwr.

4.13.3 Rhaid i aseswyr sicrhau y dangosir cyfartaledd ymhlith myfyrwyr na chaiff eu gwaith ei farcio'n ddiennw, drwy ddilyn y protocolau canlynol:

- cyhyd ag y bo'n bosibl, sicrhau bod gweithgareddau "byw" yn cael eu gweld gan fwy nag un aseswr;
- pan fo'n bosibl, sicrhau bod modd cyflawni elfen benodol o asesiad gwaith grŵp yn unigol fel y gellir asesu cyfraniad pob aelod o'r grŵp at y canlyniad terfynol;
- rhoi sicrwydd i'r myfyrwyr ynglŷn â chyfrinachedd sylwadau mewn log neu lyfryn dysgu ac eithrio achlysuron pan fydd eithriadau yn seiliedig ar safonau proffesiynol;
- cadw cofnod ysgrifenedig o'u hystyriaethau ar gyfer cyflwyniadau, prosiectau, perfformiadau a digwyddiadau "byw" eraill, yn unol â meini prawf asesu a ddiffiniwyd yn flaenorol;
- rhoi gwybod i fyfyrwyr am waith sydd i'w recordio'n weledol neu fel recordiad sain at ddibenion asesu dwbl, ail asesiad neu asesiad allanol;
- cadw'r holl gofnodion sy'n ymwneud ag asesiadau nad oes modd eu gwneud yn ddiennw, yn ddiogel hyd nes y bydd y terfyn amser ar gyfer apeliadau wedi pasio.

4.14 Rôl yr Arholwr Allanol

4.14.1 Dylid sicrhau bod cwestiynau arholiadau a thasgau asesu eraill ar gael i arholwyr allanol graffu arnynt cyn i'r myfyrwyr ymgymryd â'r asesiad.

4.14.2 Dylid sicrhau bod yr holl waith asesu ar gael i arholwyr allanol graffu arno drwy gyfrwng cymedroli marciau'n allanol. Yn achos samplu dylai arweinydd y pwnc a'r arholwr allanol gytuno ar ystod y graddau a maint a natur y sampl ymlaen llaw. Fel arfer byddai'n cynnwys croestoriad o ystod lawn y graddau a ddyfarnwyd, gyda ffocws ar achosion sydd ar y ffin. Dylid cynnwys elfennau o waith cwrs gyda'r sgriptiau arholiad perthnasol.

4.15 Marcio neu gymedroli gwaith myfyrwyr sy'n bartneriaid neu'n berthnasau agos

4.15.1 Ni ddylai staff farcio neu gymedroli gwaith partneriaid neu berthnasau agos oni cheir cymeradwyaeth Pennaeth yr Ysgol. Rhaid i Bennaeth yr Ysgol dderbyn sicrwydd nad oes gwrthdaro buddiannau.

Atodiad 3: Gofynion ar gyfer Cyflwyno, Derbyn a Dychwelyd Asesiadau

Mae'r system ar gyfer trin asesiadau yn sicrhau diogelwch o ran asesu, yn caniatáu ar gyfer monitro ac archwilio cyflwyniadau, a dylai leihau unrhyw achosion o apeliadau neu gwynion ar ran myfyrwyr yng nghyd-destun Gweithdrefnau Asesu'r Brifysgol.

Dyma'r egwyddorion:

1. Dylid derbyn gwaith yn ddiogel a dylid darparu derbynneb am y gwaith
2. Dylai'r gwaith, oni chytunir drwy eithriad, gael ei gyflwyno ar-lein a dylid darparu'r adborth ar-lein, ac ni ddylid defnyddio trefniadau cyflwyno deulol ac eithrio ar gyfer cyflwyno traethodau hir wedi'u rhwymo a phrosiectau diwedd blwyddyn.
3. Dylid cadw cofnod o'r holl waith a gyflwynir ac a ddychwelir er gwybodaeth

Disgwylid y Brifysgol yw bod pob asesiad yn cael ei gyflwyno ar-lein drwy UniLearn, Rhith-Amgylchedd Dysgu'r Brifysgol. Mae arweiniad ar ddefnyddio'r teclynnau cyflwyno ar-lein i'w gweld ar TEACH. <http://teach.southwales.ac.uk/assessment/>.

Cydnabyddir nad oes modd cyflwyno rhai asesiadau yn y modd hwn, er enghraifft gwaith Celf *in situ* neu osodiadau celf, neu pan fydd maint y ffeil yn rhy fawr. Mewn achosion o'r fath, mae'n parhau'n bwysig bod y gwaith yn cael ei dderbyn yn ddiogel a bod derbynneb yn cael ei rhoi. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn cynnal safonau ac yn sicrhau cyfartaledd a thegwch, gan gynnwys y gallu i weithredu'r gweithdrefnau Amgylchiadau Esgusodol yn effeithiol.

Cyflwyno a Derbyn

O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau canlynol yn berthnasol:

1. Bydd Rheolwyr Academaidd yn ategu'r gofyniad i'r timau cwrs y mae eu gwaith yn cael eu cyflwyno ar-lein.
2. Caiff unrhyw eithriadau i gyflwyniadau ar-lein eu cymeradwyo gan y Rheolwr Academaidd mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cwrs a bydd y Rheolwr Academaidd yn darparu rhestr o'r asesiadau hyn a gymeradwywyd i'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol Myfyrwyr ar y campws lleol.
3. Dylai myfyrwyr gyflwyno cyflwyniadau eithriadol (fel y cymeradwywyd yn 2) naill a i'r Ganolfan Cyngor ar y Campws (neu'r Dderbynfa (yn yr Atrium) yng Nghaerdydd); neu pan fo'n fwy ymarferol i dderbyn aseiniadau *in situ*, gellir gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddu'r broses o dderbyn y gwaith hwn gyda thimau Gweinyddu Myfyrwyr ar y Cwmpws, neu bydd angen i'r Gyfadran sicrhau derbynneb ffurfiol am y gwaith.
4. Bydd lleoliad cyflwyno'r asesiadau, fel yr amlinellir uchod, yn sicrhau derbynneb i bob darn o waith a bydd yn hysbysu tiwtoriaid dros ebost pan

fydd y gwaith ar gael i'w gasglu a bydd yn storio hyn yn ddiogel. Darperir gwybodaeth hefyd am y dyddiad y derbyniwyd yr aseiniad, a bydd cyflwyniadau hwyr (o fewn 5 diwrnod gwaith a all sgorio uchafswm o 40%) wedi'u nodi'n glir.

Cydnabyddir mai'r arfer mewn rhai meysydd yw cyflwyno aseiniadau yn yr ystafell ddsbarth. Dim ond pan fydd yr asesiad wedi'i gymeradwyo fel un nad yw'n addas ar gyfer cyflwyno gwaith ar-lein y dylai hyn ddigwydd, a phan fod modd sicrhau derbynneb *in situ* (gweler pwynt 3 uchod).

Marcio, Adborth a Dychwelyd Gwaith

Mae angen marcio'r asesiadau, ac mae'n rhaid darparu'r marc dros dro hwn ynghyd ag adborth priodol i'r myfyriwr **o fewn 20 diwrnod gwaith i ddyddiad cau cyflwyno'r asesiad**² (15 os yw'n dilyn llwybr rheoleiddiol Prifysgol Cymru Casnewydd). Mae rhai asesiadau sydd heb eu cynnwys yn y rheol 20 diwrnod, sef Arholiadau, Traethodau Hir a Phrosiectau Blwyddyn Olaf; dylid hysbysu'r myfyrwr ynghylch dyddiadau ffurfiol y Brifysgol ar gyfer cyhoeddi canlyniadau pan ddarperir canlyniadau'r rhain³. Bydd adborth ar draethodau a phrosiectau Blwyddyn Olaf ar gael yn dilyn cyhoeddi'r canlyniadau.

Pan fydd gwaith wedi'i gyflwyno ar-lein, dylid darparu'r marcio a'r adborth hefyd ar-lein. Pan na fydd hynny'n bosibl oherwydd cais am addasiadau rhesymol ar gyfer unigolion, dylai hyn gael ei drafod a'i gymeradwyo gan reolwr llinell. Mae'r dulliau gweithredu i'w mabwysiadu i'w gweld ar

[TEACH](http://teach.southwales.ac.uk/assessment/) (<http://teach.southwales.ac.uk/assessment/>)

Pan na fydd gwaith wedi'i gyflwyno ar-lein, mae dal modd darparu marciau ac adborth drwy ddefnyddio Grademark neu dulliau electronig eraill e.e. podlediad, darllediad fideo. Mae canllawiau ar ddefnyddio Grademark a theclynnau eraill i ddarparu marciau ac adborth yn y modd hwn ar gael yma [TEACH](http://teach.southwales.ac.uk/assessment/).

(<http://teach.southwales.ac.uk/assessment/>)

² Diffinnir diwrnodau gwaith fel dyddiau pan fydd y Brifysgol ar agor ar gyfer busnes bob dydd, h.y. nid yw'n cynnwys dydd Sadwrn, dydd Sul na gwyliau banc neu ddyddiau pan fydd y Brifysgol ar gau (fel y'u cyhoeddir yng [Nghalendr y Brifysgol](#))

³ Amlinellir y dyddiadau Canlyniadau Ffurfiol ar [Galendr Prif Ddyddiadau'r Brifysgol](#)

Gellir darparu marciau ac adborth yn gorfforol drwy ddefnyddio'r flaenddalen asesu ond rhaid ei theipio. Bydd angen i staff sicrhau eu bod yn cadw copi o'r flaenddalen asesu, cyn rhoi'r gwaith yn ôl. Gall staff weld copi o flaenddalen y myfyriwr ar-lein a gellir teipio arno; gellir wedyn argraffu hwn a'i hatodi ar ben blaenddalen y myfyriwr a gellir cadw copi electronig. Rhaid rhoi gwybod ymlaen llaw i'r myfyriwr am unrhyw ddull arall o adborth.

Ar hyn o bryd ni chaiff unrhyw farciau a ddarperir drwy'r Amgylchedd Dysgu eu trosglwyddo'n awtomatig i System Cofnodion Myfyrwyr, Quercus. Felly, mae'n bwysig, at ddibenion prosesu marcio, a chyhoeddi'r marciau hyn yn y "Gwasanaeth Canlyniadau" ffurfiol, ac at ddibenion cynnal Byrddau Asesu, bod y marciau hefyd yn cael eu cofnodi ar Quercus. Gall staff Gweinyddu Myfyrwyr gynghori ar hyn.

Rhaid cofnodi tystiolaeth o gymedroli sampl o asesiadau a farciwyd.

Monitro cydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau hyn

Bydd Rheolwyr Academaidd yn adolygu'r broses a chynorthwyo cydweithwyr wrth ateb y gofynion a amlinellir yn yr Atodiad hwn, yn benodol, cydymffurfio â'r gofyniad i ddarparu adborth ar asesiadau o fewn 20 diwrnod. Caiff unrhyw faterion eu codi gydag unigolion a bydd unrhyw ddiffyg parhaus i gydymffurfio yn cael ei gyfeirio at Bennaeth yr Ysgol a'r Deon.

Enghreiffiau o arferion effeithiol

Pecyn Adborth yr Academi Addysg Uwch - <https://www.heacademy.ac.uk/hea-feedback-toolkit>

Defnyddio Grademark a dyddiaduron Asesu ym Mhrifysgol De Cymru - <http://celt.southwales.ac.uk/gp/jisc/>

Defnyddio Peermark ym Mhrifysgol De Cymru - <http://celt.southwales.ac.uk/resources/seminar/past/13-03-2012/>